# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

# WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

# A GYFLWYNWYD / TABLED ON

# 18/1/2000

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-1999-0089 Lleihau dyledion gwledydd tlawd y byd/ Reducing Poor Countries Debts

18 January 2000 raised by Jonathon Morgan, Michael German, John Griffiths, Rhodri Glyn Thomas

0 llofnodwyr /Subscribers

*Mae'r Cynulliad hwn yn croesawu datganiad Canghellor y Trysorlys am ddileu dyledion y 41 o wledydd sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun y Gwledydd Tlawd Trwm eu Dyledion (GTTD), ac yn credu y dylai'r Canghellor gymryd y camau canlynol ychwanegol i leihau'r baich o ddyled ar bobl dlotaf y byd:*

- *pwyso dros gynnwys yng nghynllun lleddfu dyledion y GTTD bob un o'r 52 o wledydd a enwyd gan Jiwbili 2000*
- *galw ar y G7 i gynnal cyfarfod arbennig cyn gynted â phosibl eleni i drafod dyled*

*This Assembly welcomes the Chancellor of the Exchequer’s announcement of debt cancellation for the 41 countries included in the Heavily Indebted Poor Countries (HIPC) initiative, and believes the Chancellor should take the following additional steps to ease the burden of debt on the world’s poorest people:*

- *press for all 52 countries named by Jubilee 2000 to be included in the HIPC debt-relief scheme*
- *call on the G7 to hold a special meeting as early as possible this year to discuss debt*

## OPIN-1999-0090 Lwfansau’r Cabinet yng Nghyngor Sir Caerdydd/Cabinet Allowances at Cardiff County Council

18 January 2000 raised by Jonathan Morgan, David Melding

0 llofnodwyr /Subscribers

*Mae’r Cynulliad yn ceryddu cabinet Cyngor Sir Caerdydd am*

- *gynyddu eu lwfansau yn aruthrol cyn ystyried yr Adroddiad sydd ar fin cael ei gyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar y mater hwn, a;*
- *gwrthod caniatáu cyfle i’r Cyngor llawn gymeradwyo neu newid codiadau o’r fath.*

*Ymhellach, mae’r Cynulliad hwn yn annog Arglwydd Faer Caerdydd a chabinet y Cyngor i:*

- *ofyn i Gomisiwn Parkinson sicrhau bod ei gasgliadau yn gyson â’r canllawiau a bennir gan Adroddiad CLlLC pan y’i cyhoeddir, ac yn y cyfamser;*
- *gwrthod y lwfansau ychwanegol tan y bydd Comisiwn Parkinson wedi cyhoeddi cynigion newydd i’r Cyngor llawn eu hystyried.*

*This Assembly censures the cabinet of Cardiff County Council for:*

- *implementing massive increases to their allowances before considering the impending WLGA Report on this issue, and;*
- *refusing to allow full Council an opportunity to approve or amend such increases.*

*Furthermore, this Assembly urges the Lord Mayor of Cardiff and the Council cabinet to:*

- *ask the Parkinson Commission to bring its findings into line with guidelines set by the*

*WLGA Report when published, and in the meantime;*

- *refuse additional allowances until the Parkinson Commission has returned with fresh proposals for consideration by the full Council.*